Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Breakaway Short Stay Service**

**Pen-y-bont ar Ogwr**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/04/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Breakaway Short Stay Service

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Medi 2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Gwasanaeth arhosiad byr yr Awdurdod Lleol yw BreakAway, sy'n croesawu arhosiadau wedi'u cynllunio yn ogystal â rhai brys. Mae'r staff gofal yn dilyn model cymorth gweithredol, sy'n annog pobl sy'n aros yn y gwasanaeth i gynnal eu hannibyniaeth a rheoli pa fath o arhosiad yr hoffent ei gael. Yn dilyn nifer o newidiadau o ran y staff a'r rheolwyr llynedd, mae'r tîm o staff bellach yn sefydlogi a chaiff ei arwain yn dda gan dîm rheoli ymarferol. Mae cynlluniau personol yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac mae adolygiadau rheolaidd yn cwmpasu'r wybodaeth a gasglwyd gan yr unigolyn, gan berthnasau a'r gweithwyr proffesiynol allanol sy'n ymwneud â'u gofal. Caiff y staff gofal eu hyfforddi a'u goruchwylio i fod yn gymwys ac yn hyderus yn eu rolau. Mae'r cyfleusterau a'r cyfarpar yn dal yn ddiogel i'w defnyddio. Mae Unigolyn Cyfrifol dynodedig newydd wrthi'n cwblhau eu proses gwneud cais gydag AGC. Maent wedi cwblhau ymweliad monitro ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u rôl o oruchwylio a sicrhau ansawdd.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hannog a'u cefnogi i gynnal rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd wrth aros yn BreakAway. Gwnaethom siarad â rhai o'r bobl a oedd yn aros yn y gwasanaeth a gwnaethant gadarnhau y gallant ddewis eu bwydydd delfrydol, amseroedd bwyd a chynnwys cyffredinol o'u diwrnodau. Mae'r staff gofal yn hwyluso'r bobl i barhau yn eu swyddi, addysg, neu wasanaethau dydd arferol yn ystod eu cyfnod yn y gwasanaeth hefyd. Gwelsom y staff gofal yn cyfarfod y bobl nad oeddent wedi eu cyfarfod o'r blaen, a'u gweld yn rhyngweithio a chyflwyno eu hunain yn gyfeillgar, wedi'i hwyluso gan y staff gofal a oedd yn gyfarwydd â nhw. Roedd y bobl yn defnyddio gwahanol fathau o ddulliau cyfathrebu a thechnoleg er mwyn ymgartrefu a rhyngweithio â'r bobl newydd a oedd yn cyrraedd.

Gofynnwyd i'r bobl, eu cynrychiolwyr, a'r staff gofal i gyd am eu hadborth am y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r gwasanaeth yn addasu i anghenion y bobl er mwyn ei wneud mor hygyrch ag y gall fod.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae asesiadau risg wedi'u cynnwys fel rhan o gynlluniau darparu gwasanaeth y bobl a chaiff unrhyw ddigwyddiadau eu cofnodi. Mae'r tîm rheoli yn adrodd pryderon i weithgarwch diogelu yn gymwys ond mae angen sicrhau bod y rheoleiddiwr yn ymwybodol o'r amseroedd y caiff yr atgyfeiriadau hyn eu gwneud. Mae'r staff gofal i gyd wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu ac mae yna bolisi cyfredol ar waith ar gyfer arweiniad ychwanegol os oes angen.

Mae'r amgylchedd yn cefnogi llesiant y bobl. Mae'r cartref bellach yn llawn, a chaiff cydnawsedd y bobl ei ystyried cyn cytuno idyynt gael aros yn y cartref. Mae ardaloedd cymunedol lle mae'r staff gofal yn annog y bobl i ymgynnull, rhyngweithio, a rhannu prydau bwyd. Caiff y cyfleusterau a'r cyfarpar eu cynnal a'u cadw ac maent yn addas at y diben.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl deimlo'n hyderus bod y staff gofal yn dilyn cynllun cywir a chyfredol ynghylch sut yr hoffent i'w hanghenion gofal gael eu diwallu. Mae'r rheolwr a'r dirprwy wedi cwblhau cynlluniau darparu gwasanaeth newydd ac asesiadau risg i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau a chânt eu hadolygu bob tri mis fel sy'n ofynnol. Maent yn cynnwys gwybodaeth berthnasol gan y tîm amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofal y bobl. Caiff y rhai nad ydynt yn aros yn y gwasanaeth yn rheolaidd adolygiad cyn aros yn y gwasanaeth i sicrhau nad fu unrhyw newid yn eu hamgylchiadau ers iddynt aros yn y gwasanaeth ddiwethaf.

Caiff pobl gymorth i fod mor iach â phosibl. Mae'r gwasanaeth yn gweithio ochr yn ochr â thîm amlddisgyblaethol o weithwyr iechyd proffesiynol a chydgysylltwyr gofal fel rhan o'u pecyn gofal. Caiff asesiadau ac arweiniad gan weithwyr proffesiynol, megis deietegyddion, nyrsys anabledd dysgu a therapyddion lleferydd ac iaith, eu cynnwys yn ffeiliau'r bobl a chaiff y staff gofal hyfforddiant penodol ar anghenion iechyd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae'r staff gofal yn dilyn model gweithwyr allweddol, lle bydd un aelod o staff yn goruchwylio diwrnod un unigolyn, ac felly gallant deilwra a rhoi meddyginiaeth, neu eu bwydo drwy gastrostomi endosgopig drwy'r croen (PEG) er enghraifft, ar gyfer y diwrnodau gweithgareddau a gynlluniwyd. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel, a chaiff y broses o roi meddyginiaeth ei chofnodi'n gywir. Daw'r bobl â meddyginiaeth gyda nhw ar gyfer eu arhosiad, gan fynd ag unrhyw feddyginiaeth fydd yn weddill gyda nhw ar y diwedd. Cytunwyd ar bolisi meddyginiaeth bellach a bydd yn disodli'r canllawiau dros dro a gyhoeddwyd gan y darparwr yn dilyn ein harolygiad diwethaf.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion rheoli heintiau. Mae polisi rheoli heintiau ar waith sydd wedi cael ei ddiweddaru ers ein harolygiad diwethaf. Mae'r staff gofal yn cwblhau tasgau domestig, ac mae'r bobl yn helpu yn ystod eu harhosiad gymaint ag y gallant. Roedd amgylchedd y cartref yn lân ac yn daclus yn ystod ein hymweliad. Caiff gwiriadau tymheredd eu cwblhau wrth gyrraedd yr eiddo er mwyn helpu i fonitro arwyddion o salwch.

## Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth i'r bobl mewn lleoliad ac amgylchedd sy'n eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom fod amserlen barhaus trefniadau gwasanaethu a chynnal a chadw'r cyfleusterau a'r cyfarpar megis teclynnau codi, cymhorthion symudedd a'r lifft yn yr adeilad yn mynd rhagddo o hyd, gan sicrhau bod popeth yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio. Mae'r ystafelloedd gwely unigol yn fawr ac wedi'u haddurno yn niwtral. Mae'r bobl yn dod ag eitemau personol ar gyfer eu cyfnod aros. Mae gan yr ystafelloedd gwely dynodedig ddyfeisiau codi ar y nenfwd a chyfleusterau ystafell ymolchi i'r rhai sydd eu hangen. Mae cyfleusterau golchi dillad ar gael os bydd eu hangen. Mae'r ardaloedd cymunedol yn lân, yn daclus ac yn gyfforddus. Mae ardal awyr agored fawr, hygyrch i'w defnyddio mewn tywydd da.

Caiff camau eu cymryd i leihau risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Caiff y cartref ei ddiogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod. Mae'r bobl sy'n ymweld â'r cartref yn cofrestru gyda'r staff gofal wrth gyrraedd a gadael. Caiff yr ardaloedd yn y cartref a allai gynnwys eitemau sy'n niweidiol i iechyd, megis yr ystafell feddyginiaeth neu'r ystafell golchi dillad, eu cloi pan na fyddant yn cael eu defnyddio. Caiff dogfennau gofal eu storio'n gyfrinachol. Gellir gwneud ceisiadau cynnal a chadw i ddarparwr y gwasanaeth ac ymatebir iddynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar adeg yr arolygiad diwethaf, roedd newid yn y tîm o staff ac adolygiad o natur y gwasanaeth a'r ffordd y caiff ei ddarparu. Ers hynny, mae staff newydd wedi cael eu recriwtio ac mae'r tîm o staff wedi ymgartrefu ac yn fwy sefydlog. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym: *“we’ve all been learning about each other as staff and learning about the people coming in to stay”*. Roedd y gweithwyr gofal yn gadarnhaol ynghylch y tîm rheoli: *“they’re brilliant”*, *“they listen to our suggestions, they are very supportive”*. Mae proses recriwtio ar gyfer un swydd wag yn y tîm yn mynd rhagddi, ond nid yw hyn yn effeithio ar lefelau staffio ar hyn o bryd.

Caiff y bobl eu cefnogi gan y staff gofal sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel, ac wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n briodol yn eu rolau. Cesglir gwybodaeth am recriwtio gan adran Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol, ac mae'r staff i gyd wedi cael Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS) sy'n gyfredol. Dywedodd y rheolwr fod yr Awdurdod Lleol wedi rhoi llawer o gyfleoedd hyfforddiant i'r staff, ac mae'r staff i gyd wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf ar hyn o bryd. Mae gweithwyr proffesiynol allanol hefyd wedi gweithio gyda'r gwasanaeth i hyfforddi'r gweithwyr gofal ynghylch ymyriadau sy'n benodol i'r bobl y maent yn eu cefnogi. Er enghraifft, bwydo drwy gastrostomi endosgopig drwy'r croen (PEG). Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli, a gwelsom pob un o'r gweithwyr gofal wedi cael sesiynau goruchwylio unigol i drafod unrhyw faterion personol neu broffesiynol a sut i ddatblygu ymhellach.

Mae trosolwg da o ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. Ers yr arolygiad diwethaf, mae unigolyn newydd wedi gwneud cais i fod yn Unigolyn Cyfrifol (RI) ar gyfer y gwasanaeth. Mae wedi cwblhau ei ymweliad monitro cyntaf, fel sy'n ofynnol. Dengys yr adroddiad ei fod wedi dadansoddi adborth a digwyddiadau yn y cartref ac wedi nodi camau gweithredu er mwyn i'r Unigolyn Cyfrifol neu'r tîm rheoli eu cwblhau cyn yr ymweliad monitro nesaf. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud yng nghynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan y gwasanaeth er mwyn arwain staff lle y bo angen. Mae'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn ystod yr arolygiad diwethaf wedi cael ei gyflawni a byddwn yn cael golwg ar y polisïau a'r gweithdrefnau eto yn ein harolygiad llawn nesaf.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 12 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau priodol ar waith, a bod y rhain yn briodol i'r bobl yn y gwasanaeth ac yn cael eu diweddaru'n barhaus. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/06/2023